# RHAGLEN GYFALAF AR GYFER GOFAL PLANT A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

## 2025-26 I 2027-28

## Canllawiau ar lunio Achos Cyfiawnhad Busnes

Mawrth 2025 – f1

**Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar**

**Cynulleidfa:** Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan awdurdodau lleol. Dylid eu defnyddio wrth baratoi pob achos busnes o dan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.

**Rhagor o wybodaeth:** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon neu unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â'r rhaglen hon at eich Rheolwyr Cyfalaf yn yr Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Model Busnes Pum Achos a'r Canllawiau ar Gyfiawnhad Busnes ar wefan Llywodraeth y DU yn The Green Book: appraisal and evaluation in central government – GOV.UK (www.gov.uk)

**Dogfen gysylltiedig:** Canllawiau ar Grantiau Bach – fersiwn mis Mawrth 2025

This document is also available in English.

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad ... 6
2. Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ... 6
   2.1 Amcanion y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar . 6
   2.2 Cyllid ... 6
   3.2 Adran 1 – Crynodeb ... 9
   3.4 Adran 3 – Achos Cyfiawnhad Busnes ... 14
4. Gwariant Cymwys ... 16
   4.1 Diffiniad ... 17
   4.2 Costau Safonol ac Anarferol Gwaith Adeiladu ag Arian Cyfalaf ... 17
   4.3 Ffioedd Proffesiynol ... 18
   4.4 Mynediad Priffyrdd ... 18
   4.5 Tir ... 18
   4.6 Gwerthu/Gwaredu Ased ... 19
5. Y broses asesu ... 19
   5.1 Asesiad Cychwynnol ... 20
   5.2 Grŵp Craffu ar Ofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ... 20
   5.3 Panel Buddsoddi mewn Addysg ... 21
6. Prosesau Cymeradwyo a Dyfarnu Prosiect ... 21
   6.1 Llythyr Grant ... 21
   6.2 Amodau ... 21
   6.3 Hawliadau Ariannol a Gwaith Monitro Rheolaidd ... 22
   6.4 Archwiliadau ... 23
   6.5 Adroddiadau Terfynol a Buddiannau ... 23
   6.6 Cyhoeddusrwydd ... 24

## 1. Cyflwyniad

Mae Rhaglen Gyfalaf newydd ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n werth £75m, yn cael ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru rhwng 2025-26 a diwedd 2027-28. Diben y cyllid cyfalaf hwn yw ategu meini prawf cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hwn (gweler adran 2.3) a fydd yn cefnogi prosiectau gofal plant newydd ac yn cynnal a gwella'r seilwaith gofal plant a Dechrau'n Deg presennol.

Datblygwyd y canllawiau hyn i ddangos elfennau cyllido'r rhaglen ac i amlinellu'r prosesau ar gyfer rheoli prosiectau a chyllid cyfalaf mawr. Dylai awdurdodau lleol eu defnyddio wrth baratoi achosion busnes a chynigion cyfalaf mawr ochr yn ochr â chanllawiau'r cynllun grantiau bach.

## 2. Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

### 2.1 Amcanion y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Prif amcanion y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yw sicrhau y caiff y sector gofal plant yng Nghymru ei gryfhau a'i gefnogi. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, sef:

- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith
- Mynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw

Byddwn yn parhau i gefnogi cyllid grantiau bach i awdurdodau lleol er mwyn galluogi darparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig i gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau cyfalaf bach.

Ar gyfer gwaith cyfalaf mawr, byddwn yn mabwysiadu dull strwythuredig o gyflwyno ceisiadau am gyllid wrth i'r prosiectau fynd drwy gamau amrywiol y broses ddatblygu. Caniateir i brosiectau gwmpasu sawl blwyddyn ariannol o fewn y rhaglen er mwyn rhoi digon o amser i bartneriaid cyflawni wneud gwaith dylunio, cynllunio ac adeiladu. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i nodi darpar brosiectau cyfalaf a'u cwmpasu, cyn mynd ati i ddatblygu'r achos busnes. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o benderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynghylch cyllid a rheoli cyllidebau yn effeithiol.

### 2.2 Cyllid

#### 2.2.1 Cyllid Grantiau Bach

Dyrennir Cyllid Grantiau Bach ar sail fformiwla er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei rannu'n gyfartal ledled Cymru yn unol â data diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r fformiwla hon yn seiliedig ar nifer y darparwyr gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig a nifer y lleoedd gofal plant ym mhob awdurdod lleol.

Diweddarwyd canllawiau'r cynllun grantiau bach ar gyfer 2025-26 a chaiff ei adolygu bob blwyddyn.

### 2.2.2 Costau Rheoli Prosiect

Fel rhan o'r trafodaethau rhaid i'r awdurdod lleol ddangos bod ganddo strwythur rheoli ar waith i oruchwylio'r gwaith o gynnal prosiectau hyd at eu cwblhau yn ogystal â rheoli'r cynllun grantiau bach. Os nad oes trefniadau ar waith, byddai'r awdurdod lleol yn gallu gwneud cais am gyllid i dalu costau rheoli prosiect.

Byddai angen i geisiadau am gyllid o'r fath nodi'n glir y gwaith y byddai'r rheolwr/rheolwyr prosiect yn ei wneud ym mhob maes gwaith, gan gynnwys y broses grantiau bach.

Dylai ceisiadau ar gyfer costau rheoli prosiect fod yn gymesur â nifer y prosiectau arfaethedig a gall gynnwys gweinyddu'r grantiau bach. Os bydd y swydd(i) yn cynnwys cyfrifoldebau eraill, bydd angen i dîm Cyfalaf Gofal Plant Llywodraeth Cymru wybod faint o amser cyfartalog a neilltuir i reoli'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a'r gost pro rata y gwneir cais amdani ar gyfer y priod flwyddyn ariannol honno. Yr uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar gyfer cymorth rheoli prosiectau yw £50,000 y flwyddyn. Mae'r Achos Busnes Rheoli Prosiect enghreifftiol yn cynnwys adrannau perthnasol i'w cwblhau gan awdurdodau lleol.

### 2.2.3 Ceisiadau a Chynigion Cyfalaf Mawr

**Trosolwg o Gynigion Cyfalaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion prosiect yn erbyn y meini prawf cyllido yn nhrefn blaenoriaeth o ran yr hyn y maent yn debygol o allu ei gyflawni hyd at ddiwedd 2027-28. Gall y rhestr gynnwys prosiectau sydd eisoes wedi'u cwmpasu (ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cyllido) a/neu brosiectau newydd a nodwyd drwy Asesiadau/Cynlluniau Gweithredu o Ddigonolrwydd Gofal Plant (gall hyn gynnwys cynlluniau i ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg). Bydd y rhaglen yn parhau i gefnogi seilwaith presennol Dechrau'n Deg.

Bydd arweinwyr polisi ac arbenigwyr technegol yn Llywodraeth Cymru yn craffu ar y cynigion hyn a byddwn yn cydgysylltu â'n prif gysylltiadau mewn awdurdodau lleol i gytuno ar y prosiectau a fydd yn symud ymlaen i'r cam datblygu.

**Cyllid:** Gall awdurdodau lleol wneud cais yn erbyn dau gam cyllido:

1. **Cronfa Datblygu**: Cyllid o hyd at £50,000 i nodi darpar safleoedd, ar gyfer dyluniad cychwynnol prosiect newydd, cost datblygu achos busnes, ffioedd proffesiynol, arolygon, cynllunio a thendro.

*Noder: Bydd angen i dîm Cyfalaf Gofal Plant Llywodraeth Cymru gael dadansoddiad o'r costau amcangyfrifedig os bydd angen cyllid at y dibenion hyn. Rhaid i Adrannau 1 a 2 o'r Achos Cyfiawnhad Busnes enghreifftiol gael eu cwblhau wrth wneud cais am gyllid datblygu. Gweler adrannau 3.2.1 a 3.2.2*

*Dim ond os bydd costau adeiladu llawn y prosiect wedi'u dyfarnu y gellir hawlio cyllid datblygu, felly bydd yr awdurdod lleol yn atebol am unrhyw gostau datblygu yr eir iddynt nes i'r costau adeiladu llawn gael eu cymeradwyo. Gellir hawlio costau datblygu ochr yn ochr â chostau adeiladu ar ôl i'r llythyr dyfarnu ddod i law.*

2. **Cronfa Adeiladu**: Y gost adeiladu lawn (llai unrhyw gyllid y gwnaed cais amdano eisoes, e.e. cronfa datblygu)

*Noder: Rhaid cwblhau pob Rhan o'r Achos Cyfiawnhad Busnes enghreifftiol yn llawn wrth wneud cais am gostau adeiladu*.

## 3. Achosion Cyfiawnhad Busnes

*Rhaid i awdurdodau lleol gwblhau'r Achos Cyfiawnhad Busnes enghreifftiol ar gyfer pob cynnig cyfalaf mawr.*

### 3.1 Meini Prawf Cyllido

Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu prosiectau yn seiliedig ar y meini prawf cymhwystra canlynol:

- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg – Pe bai cynllun yn helpu i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol, y pwysoliad ar gyfer darpariaeth drochi fyddai 30%, a'r pwysoliad ar gyfer darpariaeth ddwyieithog fyddai 20%.

- Cydleoli – er enghraifft ar safleoedd ysgolion, mewn Hybiau Cymunedol neu Iechyd – Pe bai cynllun yn helpu Llywodraeth Cymru i gydleoli'r agenda gwasanaethau yn uniongyrchol, y pwysoliad fyddai 25*%. (Noder: Nid yw cydleoli wedi'i gyfyngu i safleoedd ysgolion; gellir cynnwys adeiladau cymunedol neu iechyd)*

- Ehangu rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg neu Ddysgu Sylfaen mewn lleoliad gofal plant – Y pwysoliad fyddai 10% ar gyfer pob agwedd ar y cynnig. Felly, pwysoliad cynllun sy'n cynnig dysgu sylfaen mewn lleoliad Dechrau'n Deg ac yn derbyn plant o dan y Cynnig Gofal Plant fyddai 30%. Ar gyfer y lleoliadau gofal plant hynny sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant yn unig, y pwysoliad fyddai 10%.

- Ehangu lleoedd – Byddai'n rhaid i'r achos busnes dros gynllun nodi maint yr ehangu'n glir o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol, er enghraifft byddai buddsoddiad cyfalaf yn cynyddu capasiti'r lleoliad o X i Y. Byddai'r pwysoliad yn cael ei gynyddu'n gymesur â'r cynnydd yn y ddarpariaeth, hyd at 15%.

### 3.2 Adran 1 – Crynodeb

Dylai'r adran hon gynnwys enw, lleoliad a/neu gyfeiriad y prosiect, a chyfanswm y cyllid y gwneir cais amdano. Dylid nodi costau datblygu, lle y bo'n berthnasol, fel ffigur ar wahân. Ticiwch yr holl feysydd blaenoriaeth a/neu nodau perthnasol a gwmpesir yn y cynnig hwn a, lle y bo'n berthnasol, rhowch ddadansoddiad o nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd (Cyfwerth ag Amser Llawn - CALl) ynghyd â chyfanswm nifer y lleoedd a gynigir gan y cynnig hwn.

#### 3.2.1 Adran 1– Cronfa Datblygu a Chost Prosiect

**Cyllid Datblygu**

Gall awdurdodau lleol wneud cais am gronfa datblygu ar gam cychwyn y prosiect i gwmpasu rhywfaint o'r gwaith, er enghraifft i gynnal astudiaeth ddichonoldeb, ar gyfer arolygon ac ymchwiliadau tir cychwynnol ac ar gyfer ffioedd cyn adeiladu (dylunio, cynllunio, rheoli prosiect a rheoli costau).

Fodd bynnag, dim ond y costau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddatblygu ased i gyflwr gweithio y gellir eu dosbarthu'n wariant cyfalaf, felly os na fydd y prosiect yn datblygu ymhellach, byddwn yn cymryd camau i adennill y costau neu eu gwrthbwyso â phrosiectau cyfalaf eraill a ariennir.

**Cost Prosiect/Adeiladu Lawn**

Y gost prosiect/adeiladu lawn (llai unrhyw gyllid cronfa datblygu a ddyfarnwyd yn flaenorol, lle y bo'n berthnasol).

### 3.3 Adran 2 – Achos Strategol

Mae'r adran hon yn cynnwys y pedwar maes canlynol:

- Trosolwg
- Dadansoddiad o'r rhestr waith arfaethedig
- Effaith ar Randdeiliaid a'r Gymuned Ehangach
- Polisïau a Strategaethau Ehangach
- Cyllid

#### 3.3.1 Achos Strategol – Trosolwg (hyd at 500 o eiriau)

Dylid rhoi trosolwg o'r hyn y mae eich awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud, pam mae angen y gwaith hwn (h.y. yr achos dros newid), pa ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r amrywiaeth o wasanaethau a fydd yn cael eu cynnig, gan ystyried Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yr awdurdod lleol, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan gynnwys Cynlluniau Gweithredu Awdurdodau Lleol. Dylech esbonio sut

mae eich cynnig yn cysylltu â'r meini prawf ar gyfer grant cyfalaf (eangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynyddu nifer y lleoedd gofal plant, cydleoli ac ehangu rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru h.y. y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg a/neu Ddysgu Sylfaen mewn lleoliad gofal plant).

Gofynnwn i chi gynnwys gwybodaeth am bob maen prawf, gan gynnwys y cyfnod pontio rhwng gofal plant ac addysg gynnar gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf o sut mae'r cynnig hwn yn cefnogi eich Cynlluniau Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

*Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw am ddarpariaeth gofal plant lleol a'i argaeledd yn rheolaidd o dan Adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

- Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, fod y ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal i'w galluogi i weithio neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant.
- Rhaid nodi cynnydd mewn perthynas â chynlluniau gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob blwyddyn. Mae'r gofynion hyn yn galluogi awdurdodau lleol i lywio a chefnogi'r broses o ddatblygu darpariaeth gofal plant yn yr ardal leol er mwyn sicrhau ei fod yn hyblyg, yn gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion y gymuned.
- Cynhelir Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd a chyhoeddwyd y dogfennau diweddaraf gan yr awdurdod lleol.
- Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y materion penodol ynghylch mynediad i ofal plant i rieni sy'n gweithio, rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant, cartrefi di-waith, teuluoedd incwm isel, teuluoedd rhieni unigol, teuluoedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol a theuluoedd â phlant anabl neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sydd am gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg*

Mae Rheoliadau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a wnaed o dan adran 87 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nodi beth sy'n rhaid i gynllun awdurdod lleol ei gynnwys a sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wneud y canlynol:

- gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal.
- gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal

Mae'r Rheoliadau yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, fel yr amlinellir yn Strategaeth y Gymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Meysydd allweddol i'w hystyried:

- Sut y bydd y prosiect yn cefnogi nodau Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr a'r targedau fel y'u nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg?
- Beth yw'r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg? Mae hefyd yn ofynnol asesu'r effaith ar ddarpariaeth Gymraeg gyda phrosiectau a all gael eu hystyried yn rhai cyfrwng Saesneg.
- A yw'r prosiect yn cefnogi cyd-leoli'r ddarpariaeth os yw'n bosibl i annog parhad a dilyniant? Er enghraifft, cyd-leoli gofal plant cyfrwng Cymraeg, addysg Gymraeg, darpariaeth drochi.

**Noder:** Bydd angen i ddadansoddiad o'r rhestr waith arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r prosiect gael ei gynnwys yn yr adran hon cyn y gellir adolygu'r achos busnes.

Os mai adeilad/estyniad newydd yw'r prosiect, nodwch a fydd yr ôl troed yn disodli unrhyw fannau gwyrdd/chwarae agored. Dylai'r awdurdod lleol gydnabod bod pob man agored, gan gynnwys y rhai sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn ei ardal er nad yw'n berchen arnynt, yn ardaloedd pwysig o bosibl lle y gall plant chwarae neu fynd drwyddynt i gyrraedd ardaloedd eraill lle y gellir chwarae neu fannau eraill lle maent yn mynd.

### 3.3.2 Achos Strategol – Effaith ar Randdeiliaid a'r Gymuned Ehangach (hyd at 750 o eiriau)

Dyma'r adran i gofnodi gwybodaeth am unrhyw waith ymgynghori a/neu weithgareddau ymgysylltu a wnaed gyda rhanddeiliaid, er enghraifft gyda darparwyr gofal plant cofrestredig yn yr ardal, ysgolion, sefydliadau gofal plant a chwarae cenedlaethol (sefydliadau consortiwm gofal plant CWLWM) a rhieni er mwyn nodi'r angen am wasanaethau gofal plant a'u lleoliad.

Gofynnir i awdurdodau lleol gynnal asesiad effaith a dangos ystyriaeth i effaith y cynnig ar y gymuned leol, darparwyr cofrestredig lleol eraill a rhanddeiliaid allweddol.

Un maes allweddol i'w ystyried o dan y broses adolygu Achos Cyfiawnhad Busnes yw a oes digon o dystiolaeth yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan yr Awdurdod Lleol i gefnogi cynnig, ac a yw'r cynnig yn lliniaru'r bylchau o ran digonolrwydd a nodwyd yn y maes penodol. Byddem yn eich cynghori i ddilyn canllawiau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant Gofal plant: canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymwneud â Dosbarthiad Daearyddol.

Er mwyn bodloni'r gofynion, rhaid i chi roi tystiolaeth o sut rydych wedi:

- Asesu'r galw
- Asesu'r cyflenwad o ofal plant
- Asesu'r bwlch (gallu ac adnoddau annigonol mewn maes penodol)

- Nodi rhwystrau

Wrth ddadansoddi'r bwlch rhwng galw a chyflenwad yn yr ardal, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canlynol o leiaf:

- Y mathau o ofal plant sydd ar gael
- Oedran plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer
- Fforddiadwyedd gofal plant
- Yr amseroedd y mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n bodloni patrymau defnydd afreolaidd yn ystod y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn
- Lleoliad gofal plant
- Anghenion penodol darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau iaith gwahanol

### 3.3.3 Achos Strategol - Polisiau a Strategaethau Ehangach (hyd at 1,000 o eiriau)

Dylai eich achos busnes ddangos ystyriaeth i rai o flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a/neu eich blaenoriaethau lleol chi, fel y bo'n berthnasol. Gall y rhain gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU)
    - Mae'r nodau llesiant yn cynnwys Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Mwy o wasanaethau Cymraeg – (Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer eich awdurdod)
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad | LLYW.CYMRU)
    - e.e. gofal plant i alluogi rhieni i weithio, meithrin sgiliau rhieni, gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau iechyd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi a chreu swyddi a chyfleoedd newydd.
- Cydleoli gwasanaethau allweddol, e.e. Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru
- Sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol
- Lleihau anghydraddoldebau addysgol a chodi safonau
- Ystyried diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol
- Trawsnewid Canol Trefi https://www.llyw.cymru/canol-trefi-datganiad-sefyllfa-html
- – gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt

- Egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf – a yw'r prosiect arfaethedig wedi'i leoli mewn canol tref? Os nad yw, esboniwch pam na fyddai lleoliad canol tref yn briodol/bosibl. Sut mae'r cyfleusterau arfaethedig yn cyd-fynd ag unrhyw gyfleusterau presennol/lleol yn yr ardal?

- Cysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Lleol (gweler Cynlluniau datblygu | Is-bwnc | LLYW.CYMRU)
  - A yw'r safle wedi'i leoli o fewn Cynllun Datblygu Lleol?
  - Pa opsiynau eraill a ystyriwyd er mwyn sicrhau mai dyma'r lleoliad mwyaf cynaliadwy?
- Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth (gweler Newid yn yr hinsawdd | Is-bwnc | LLYW.CYMRU a Cyflwyniad i Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | LLYW.CYMRU) a Theithio Llesol a Seilwaith Gwyrdd Cynllun gweithredol teithio llesol | LLYW.CYMRU
  - A fydd y prosiect yn cynnig llai/mwy o gyfleoedd i gerdded i'r lleoliad?
  - Opsiynau teithio sy'n annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac i gerdded a beicio
  - Cynlluniau ar gyfer creu ardaloedd bioamrywiaeth (i wella ansawdd aer a datgarboneiddio) e.e. nodweddion naturiol fel gwrychoedd, coed, cloddiau cerrig, gosod blychau adar mewn lleoliadau priodol
  - Sut y gellir gwella cysylltiadau â nodweddion yr amgylchedd naturiol, gan sicrhau y caiff cyn lleied o feysydd chwarae a mannau gwyrdd â phosibl eu colli
- Trefniadau Diogelu (gweler *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu*) Mae'r Cod yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threfniadau diogelu craidd ac mae'n galluogi unigolion, grwpiau a sefydliadau i ddangos bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

- Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012. Dylai awdurdodau lleol ystyried eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu Chwarae i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae o ansawdd digonol i blant, fel y nodir yn y Rheoliadau a Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae.

Cymorth i'w ystyried:

- Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach - Mae'r sector gofal plant yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi, gan gynnwys amgylcheddau cadarnhaol a gofalgar i'n plant a helpu rhieni i gael gafael ar gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

  Er mwyn cefnogi'r heriau ariannol hyn a helpu i gyflawni rhaglen y Cynnig Gofal Plant a ariennir sy'n cynnig 30 awr o addysg gynnar a gofal plant i blant 3-4 oed, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhyddhad o 100% i bob darparwr gofal plant cofrestredig yng Nghymru. Nod y lefel uwch hon o ryddhad yw

helpu i sicrhau lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen ar blant a rhieni ac y maent yn dibynnu arni. Dylai talwyr ardrethi gysylltu â'u hawdurdod lleol unigol ag unrhyw ymholiadau ynghylch eu bil Ardrethi Annomestig a hawliad i ryddhad ardrethi. Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach | Busnes Cymru

### 3.3.4 Achos Strategol – Cyllid (hyd at 500 o eiriau)

Yn yr adran hon, byddem yn disgwyl i fanylion gael eu rhoi am lefel y cyllid sy'n ofynnol a beth fydd y diben. Hefyd, gwybodaeth am unrhyw gyllid arall a ystyriwyd, ynghyd â manylion am unrhyw gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf i'r safle penodol gan gynnwys yr effaith os na fydd y cyllid ar gael ar gyfer y cynnig hwn.

Ymhlith y ffynonellau eraill o gyllid gan Lywodraeth Cymru a allai fod yn berthnasol mae Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ysgolion Bro, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfleusterau Cymunedol a Thrawsnewid Trefi a'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## 3.4 Adran 3 – Achos Cyfiawnhad Busnes

Mae Adran 3 yn ymdrin â'r pedwar maes canlynol:

- Achos Economaidd (gwerth am arian)
- Achos Ariannol
- Achos Masnachol
- Achos Rheoli

### 3.4.1 Achos Economaidd (gwerth am arian) (hyd at 1,000 o eiriau)

Diben yr achos economaidd yw nodi eich rhestr o opsiynau ac, o blith y rhain, nodi'r opsiwn a ffefrir gennych a'ch cyfiawnhad dros hynny. Yn yr adran hon, dylech amlinellu'r asesiad Gwerth am Arian ar gyfer y prosiect.

Dylai awdurdodau lleol nodi prosiectau lle mae gallu ac adnoddau annigonol yn y sector gofal plant wedi'i nodi yn eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant perthnasol. Dylai gynnwys lleoliadau a gynhelir gan yr awdurdod lleol a lleoliadau nas cynhelir ym mhob rhan o'r sector cyfan **(darparwyr awdurdod lleol, preifat a thrydydd sector).**

Gallai ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer yr opsiynau gynnwys:

- A ydynt yn darparu gwerth da am arian?
- A yw'r opsiynau yn gyflawnadwy?
- A ydynt yn fforddiadwy?
- A ellir cyflawni'r opsiynau o fewn y terfyn amser?
- A ydynt yn sicrhau deilliannau a chanlyniadau gwell i blant a theuluoedd?

- Os yw lleoliad ar safle ysgol, a fydd hyn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol i leoliad gofal plant/i warchodwyr plant yn yr ardal leol? h.y. Cytundebau rhentu is

Dylid defnyddio meincnod gwerth am arian. Er enghraifft:

- Nifer y lleoedd gofal plant a grëwyd (os yw'n berthnasol) yn erbyn cost y prosiect (gan gynnwys costau datblygu) = cost fesul lle gofal plant.
- A/neu y costau fesul $m^2$ o'r prosiect lle mae cyfanswm arwynebedd llawr (gan gynnwys gofod chwarae awyr agored a gaiff ei ddatblygu) wedi'i rannu â chyfanswm costau'r prosiect.
- A/neu gost gwaith adeiladu modwlar yn hytrach nag adeilad/estyniad soled.

Byddem yn disgwyl 3-5 opsiwn a gwerthusiad risg ar gyfer pob un, gan gynnwys y canlynol o leiaf:

- gwneud dim / busnes fel arfer
- opsiwn gwneud y lleiaf posibl
- un neu ragor o opsiynau posibl yn seiliedig ar gyfuniad mwy a/neu lai uchelgeisiol

Rhowch resymau clir dros yr opsiwn a ffefrir sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian. Hefyd, nodwch unrhyw gostau anarferol (er enghraifft tynnu asbestos, problemau o ran gwaith tir – cloddio, halogi, ac ati) Ystyriwch yr opsiynau posibl yn unol â'r 'Ymarfer Cyflenwi Lleoedd Ysgol Blynyddol' i nodi ystafelloedd dosbarth dros ben.

### 3.4.2 Achos Ariannol (hyd at 500 o eiriau)

Dylid nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn yr Achos Strategol. Gallai hyn gynnwys sut y cyfrifwyd y costau a chymhariaeth â phrosiectau tebyg ac amserlen ar gyfer y gwariant.

A yw'r prosiect yn rhan o waith caffael mewn swp neu, fel arall, pa ystyriaeth a roddwyd i'r dull gweithredu hwn?

Gofynnwn ichi roi proffil amlinellol realistig o'r cynnig, gan ganiatáu amser i gael caniatâd cynllunio, gan gynnwys y broses dendro.

Mae'r proffil hwn yn hanfodol er mwyn inni ragweld a rheoli'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn. Os caiff prosiectau eu hoedi, mae hyn yn rhoi pwysau ar gyllideb y flwyddyn ganlynol, felly rhowch linell amser realistig ar gyfer y prosiect.

Mae'r adran hon hefyd ar gael i gael rhagor o wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r rhestr waith arfaethedig y bydd y cyllid yn ei chefnogi

### 3.4.3 Achos Masnachol (hyd at 500 o eiriau)

Dylai'r holl waith caffael fod yn gyson ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru ac yn unol â rhwymedigaethau gweithdrefnol a chyfreithiol.

Er enghraifft, defnyddiwch fframwaith rhanbarthol ar gyfer gwaith adeiladu (drwy fframwaith a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel SEWSCAP (Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru), SWWRCF (Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru) neu Fframwaith Contractwyr Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Gogledd Cymru neu drwy broses dendro gystadleuol OJEU ar wahân) a/neu fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer dodrefnu lleoliadau addysgol.

Byddem yn annog awdurdodau lleol i ddewis dull gweithredu mwy cynaliadwy ac i weithio gyda mentrau cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cynnal buddiannau economaidd yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn dangos sicrwydd buddsoddiad, er enghraifft sut y byddwch yn sicrhau bod darparwyr yn parhau i gynnig lleoedd gofal plant a/neu Dechrau'n Deg?

Os caiff lleoliad newydd ei ddatblygu (hyd yn oed ar dir ysgol), dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â'r sector gofal plant a dim ond lle nad oes opsiwn hyfyw arall y dylai fod yn lleoliad a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Gwyddom am achosion lle mae lleoliadau a gynhelir wedi cael hysbysiad yn nodi bod yn rhaid iddynt symud o ystafelloedd mewn ysgolion. Felly, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau darpariaeth gofal plant barhaus mewn ysgolion am gyfnod y cytunwyd arno?

Nodwch hefyd na ddylech wneud cais am gyllid ar gyfer darpariaeth a fyddai mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r sector gofal plant nas cynhelir.  Bydd hefyd angen i chi fod yn fodlon bod gan ddarparwyr preifat brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod y buddsoddiad yn ddiogel. Dylid cynnwys manylion ar y broses o ymgynghori â darparwyr presennol yn yr ardal o dan adran ‘Effaith ar Randdeiliaid a'r Gymuned Ehangach’ yr achos busnes.

### 3.4.4 Achos Rheol (hyd at 500 o eiriau)

Dylai hwn esbonio’r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn eich awdurdod lleol, sut y caiff y prosiect ei reoli a'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni prosiectau. Nodwch sut bydd y buddsoddiad yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus a chyfeiriwch at:

- Y trefniadau rheoli prosiect
- Y trefniadau sicrwydd busnes
- Monitro gwireddu buddion
- Rheoli risg
- Ôl-werthusiad o'r prosiect;
- Cynlluniau wrth gefn

## 4. Gwariant Cymwys

### 4.1 Diffiniad

Mae gwariant cyfalaf wedi'i ddiffinio mewn statud drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Rydym yn defnyddio'r diffiniadau cyffredinol a ddarperir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr. Yn gyffredinol mae a wnelo â gwariant ar gyfer:

- Caffael neu greu ased newydd
- Gwella asedau presennol

*"Enhancement", in relation to any asset, means the carrying out of works which are intended:*

*a. To lengthen substantially the useful life of an asset; or*

*b. To increase substantially the open market value of the asset; or*

*c. To increase substantially the extent to which the asset can or will be used for the purpose of or in connection with the school concerned."*

At ddiben y Rhaglen Grant Cyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar BA2025-29, mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â darparu a gwella asedau sefydlog pwysig, gan gynnwys tir, adeiladau a chyfarpar a fydd yn ddefnyddiol neu'n fuddiol i ddarparu gwasanaethu am fwy nag un flwyddyn ariannol. Mae gwariant yn cynnwys y canlynol:

- Cost caffael adeiladau
- Cost gwaith adeiladu newydd
- Cost estyn adeilad presennol
- Gwella tir, ffyrdd neu adeiladau (o fewn ôl-troed gofal plant a Dechrau'n Deg)
- Prynu cyfrifiaduron/cyfarpar cyfrifiadurol os ydynt yn rhan o brosiect cyfalaf ar raddfa fawr y gellir eu cyfalafu, yn cynnwys ceblau a chaledwedd cysylltiedig.
- Cost galluogwyr Carbon Sero Net h.y. paneli solar/prosesau ailgylchu

### 4.2 Costau Safonol ac Anarferol Gwaith Adeiladu ag Arian Cyfalaf

Isod ceir rhestr o'r elfennau y mae angen eu cynnwys yng nghost safonol gwaith adeiladu o'r newydd (os nad yw wedi'i gefnogi eisoes o dan gostau datblygu cychwynnol):

- Arolygon
- Ffioedd
- Costau cynllunio
- Costau dylunio
- Gwaith cychwynnol
- Gorbenion ac elw
- Costau symud ac adleoli

- Adeiladu (gan gynnwys is-strwythur, uwch-strwythur, gorffeniadau mewnol, gosodiadau a dodrefn sy'n sownd i'r adeilad a'r gwasanaethau)
- Gwaith allanol (gan gynnwys ardaloedd chwarae awyr agored, cyfarpar chwarae, dodrefn yn yr awyr agored, ffensys cadarn, llwybrau, parcio a thirlunio)

Galla costau anarferol cymwys gynnwys:
- Tynnu asbestos
- Glanhau tir halogedig
- Delio â phroblemau cloddio hanesyddol
- Sylfeini wedi'u pentyrru neu unrhyw sylfeini eraill sydd eu hangen oherwydd cyflwr y tir
- Lefelu'r safle o ganlyniad i dopograffi

**4.3 Ffioedd Proffesiynol**

Yn bennaf, dim ond y costau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddatblygu ased i gyflwr gweithio y gellir eu dosbarthu'n wariant cyfalaf.

Gall hyn gynnwys unrhyw ffioedd penseiri a syrfewyr sy'n arwain at gaffael neu godi adeilad. Fodd bynnag, os eir i'r ffioedd ar gamau cynnar iawn rhaglen gyfalaf, yn ymwneud â'r gwaith sefydlu a'r briff strategol (sy'n gyfystyr â Cham 0-1 RIBA adeilad ysgol), cânt eu hystyried yn weithgareddau refeniw.

Os eir i gostau drwy ddefnyddio timau dylunio mewnol neu gwmnïau ymgynghori sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol, mae'r rheolau canlynol yn gymwys:

- Nid yw timau dylunio mewnol sydd â chyllideb ganolog wedi'i chlustnodi o fewn yr awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y grant cyfalaf hwn
- O ran timau dylunio mewnol nad oes ganddynt gyllideb ganolog, ond sy'n codi ffioedd ar adrannau eraill sy'n defnyddio eu gwasanaethau, gellir adennill costau cyflogau'r tîm dylunio, tâl, Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn. Ni fyddai'r argostau, sy'n cynnwys costau llety, cyflogres a chymorth ariannol, ac ati, yn gymwys.
- Adrannau mewnol sydd wedi'u sefydlu fel gwasanaeth ymgynghorol, e.e. busnes ar wahân i'r awdurdod lleol sy'n gweithredu fel endid masnachol – byddai'r swm cyfan yn gymwys.

**4.4 Mynediad Priffyrdd**

Darperir cyllid cyfalaf ar gyfer ailadeiladu neu ailfodelu cyfleusterau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, felly gellir priodoli cyllid grant i'r seilwaith a geir o fewn ffiniau'r safleoedd hynny. Er enghraifft, os yw prosiect cyfalaf yn cynnwys gwaith i wella mynediad i'r safle oddi ar y briffordd, ni fyddai'r gwaith hwn yn gymwys ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru, a'r awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am ei ariannu.

**4.5 Tir**

Rydym yn ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer safleoedd newydd a chaffael tir fesul achos a byddem yn chwilio am dystiolaeth bod y safle a ddewiswyd yn opsiwn priodol a bod cytundebau priodol ar waith i sicrhau gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar barhaus.

### 4.6 Gwerthu/Gwaredu Ased

Mae'r Amodau ar gyfer cynnig cyllid cyfalaf yn nodi'n glir fod yn rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Llywodraeth Cymru am 'ddigwyddiad hysbysu'. Mae un o'r digwyddiadau hyn yn cynnwys unrhyw gynlluniau i werthu, trosglwyddo, lesio neu waredu fel arall ran o eiddo sydd wedi elwa ar gyllid cyfalaf, neu'r eiddo cyfan. Os bydd un o'r digwyddiadau hyn yn digwydd, mae Amodau'r llythyr Dyfarnu Cyllid yn nodi y gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ad-dalu'r cyllid a gafwyd yn llawn neu'n rhannol. Felly, mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol yn cysylltu â Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar cyn gynted ag y caiff unrhyw fater o'r fath ei nodi.

Bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn ymateb yn gymesur i'r amgylchiadau.

## 5. Y broses asesu

Mae'r broses o asesu a chymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes yn Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n bedwar cam:

- Asesiad Cychwynnol gan Reolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (Misol)
- Panel Buddsoddi mewn Addysg (Dwywaith y Mis)
- Dylid cael cliriad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Fodd bynnag, os dangosir bod gwerth prosiect islaw £350,000 yna caiff yr Achos Cyfiawnhad Busnes ei asesu gan ddilyn y broses ganlynol:

- Asesiad Cychwynnol gan Reolwyr Cyfalaf Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar
- Adolygiad electronig gan y Grŵp Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
- Adolygiad electronig gan Gyfarwyddwr y Rhaglen

**Noder:** Dylai gwybodaeth ar gyfer prosiectau gyda gwerth islaw £350,000 fod yn gymesur â lefel y cyllid y gofynnir amdano. Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes enghreifftiol yn berthnasol i bob lefel o gyllid

## 5.1 Asesiad Cychwynnol

Bydd y Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn asesu'r Achos Cyfiawnhad Busnes i ddechrau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ofynnol wedi'i chyflwyno'n llawn a bod y dystiolaeth yn ddigonol i symud ymlaen i'r cam nesaf, h.y. Panel Craffu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Dylai'r wybodaeth a roddwyd ddangos y canlynol **o leiaf**:

- Amcanion buddsoddi clir sy'n gyson â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (gweler adran 2.1 o'r Canllawiau)
- Dangos yn glir bod y prosiect yn cefnogi Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yr awdurdod lleol a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Dylid cynnwys cynlluniau llawr ac ôl troed arfaethedig ($m^2$) y prosiect
- Rhestr waith arfaethedig y bydd y cyllid cyfalaf yn ei chefnogi
- Ystyriaethau ar gyfer hygyrchedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Dangos yn glir sut y bydd y prosiect yn cefnogi Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth (yn unol â Sero Net 2050)
- Mae angen ystyried opsiynau teithio llesol fel cerdded a beicio i leoliadau ac oddi yno, mannau chwarae, gan gynnwys cysylltiadau â'r Seilwaith gwyrdd presennol.
- Rhaid i weithgareddau ymgysylltu / ymgynghoriadau a gwblhawyd neu a gynlluniwyd gael eu cynnwys yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes
- Asesu effaith prosiect arfaethedig ar ofal plant cofrestredig presennol a'r gymuned
- Bod pob opsiwn posibl wedi'i ystyried a'r costau wedi'u cymharu, gan ddangos mai'r opsiwn a ffefrir yw'r un mwyaf cost-effeithiol
- Bod cyllid amgen wedi'i geisio hefyd ac na all ffynonellau eraill ddarparu'r cyllid y gwneir cais amdano
- Bod trefniadau rheoli a llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer y rhaglen hon

**Noder:** Os oes angen, bydd y Rheolwr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn gofyn i'r awdurdod lleol am esboniad a/neu wybodaeth ategol ychwanegol.

## 5.2 Grŵp Craffu ar Ofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Cynhelir y panel craffu ar Ofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar bob mis ac fel arfer, trefnir eu bod yn cael eu cynnal yn ystod ail wythnos y mis. Dylid cyflwyno ceisiadau i'w hadolygu erbyn trydedd wythnos pob mis i'w hystyried ar gyfer panel y mis canlynol.

Rhaid i'r Achosion Cyfiawnhad Busnes ddod i law ar neu cyn y dyddiad hwn er mwyn sicrhau y rhoddir digon o amser i'r tîm cyfalaf asesu'r dogfennau.

Mae'r panel yn cynnwys arweinwyr polisi ac arbenigwyr technegol o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r panel yn ystyried yr achosion a bydd yn eu hasesu am gysondeb â strategaeth Llywodraeth Cymru, y gallu i gyflawni, achos economaidd cadarn strategaeth fasnachol a fforddiadwyedd.

Os nodir mater sy'n debygol o effeithio ar allu'r Panel Craffu i ddod i benderfyniad, bydd y Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn gofyn i'r awdurdod lleol am wybodaeth neu esboniad pellach.

### 5.3 Panel Buddsoddi mewn Addysg

Mae'r Panel Buddsoddi mewn Addysg yn cwrdd ddwywaith y mis, sy'n golygu bod yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd drwy'r Panel Craffu ar Ofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar cyn cyfarfod y Panel Buddsoddi.

Bydd y Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn cyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes yr awdurdod lleol a gaiff ei adolygu gan y Panel Buddsoddi, gan ystyried canfyddiadau'r Panel Craffu ar Ofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar hefyd.

Os na chaiff achosion eu cymeradwyo gan y Panel, bydd y Rheolwr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn hysbysu'r awdurdod lleol am hynny ac yn egluro rhesymau'r panel. Os bydd angen rhagor o wybodaeth er mwyn i'r achos symud ymlaen, gofynnir i'r awdurdod lleol am yr wybodaeth honno a chaiff ei chyflwyno i'r panel er mwyn iddo graffu arni a/neu ddod i benderfyniad.

### 5.4 Cymeradwyaeth Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet

Cyfeirir yr achosion hynny a argymhellir i'w cymeradwyo gan y Panel Buddsoddi mewn Addysg at Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet am benderfyniad ffurfiol. Bydd Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn hysbysu'r awdurdod lleol am y penderfyniad hwnnw maes o law.

## 6. Prosesau Cymeradwyo a Dyfarnu Prosiect

### 6.1 Llythyr Grant

Yn dilyn cymeradwyaeth Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet, anfonir llythyr cynnig grant yn cadarnhau cyfanswm y dyraniad grant i'r awdurdod lleol. Bydd y llythyr hwn yn cynnwys Atodlen (Atodlen 1), sy'n dadansoddi'r dyraniad yn erbyn prosiectau cyfalaf penodol (os yw'r dyraniad cyffredinol yn ymwneud â mwy nag un)

Rhaid i gopi o'r llythyr cynnig grant gael ei lofnodi gan ddau lofnodwr awdurdodedig ar ran yr awdurdod lleol a rhaid iddo gael ei ddychwelyd cyn y gellir hawlio'r cyllid.

### 6.2 Amodau

Mae'r llythyr cynnig grant yn cynnwys telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ac amodau penodol ar gyfer grantiau cyfalaf a delir o dan y rhaglen gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar:

- Gwerthu neu Waredu Asedau
- Budd i'r Gymuned
- Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a Thystysgrifau Perfformiad Ynni

Os defnyddir grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith adeiladu o'r newydd neu 'annibynnol', rhaid iddo sicrhau sgôr 'ardderchog' BREEAM (ystyr gwaith adeiladu annibynnol yw gwaith adeiladu nad yw'n cynnwys adnewyddu adeilad presennol na chodi estyniad, oni bai bod yr estyniad yn annibynnol).

Er enghraifft, ni fyddai angen i estyniad deulawr at ddibenion gofal plant sicrhau sgôr 'ardderchog' BREEAM, ond byddai angen iddo sicrhau sgôr EPC A. Fodd bynnag, os mai adeilad annibynnol yw'r strwythur arfaethedig sy'n hunangynhwysol ac sydd â'i wasanaethau cyfleustodau uniongyrchol ei hun, yna byddai BREEAM yn gymwys.

Os rhagwelir, wrth godi adeilad newydd ar gyfer darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, na lwyddir i sicrhau sgôr 'ardderchog' BREEAM, yna bydd angen i'r awdurdod lleol hysbysu'r Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar i ddechrau, oherwydd gallai effeithio ar y cyllid grant sydd ar gael. Byddai angen achos busnes i gefnogi unrhyw wyro oddi wrth y sgôr 'ardderchog'. Ym mhob achos, bydd angen cymeradwyaeth y Gweinidogion. Os na lwyddir i sicrhau sgôr 'ardderchog' BREEAM, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol adennill y cyllid yn llawn neu'n rhannol.

Mae gofynion BREEAM yn seiliedig ar yr arwynebedd llawr. Gellir gweld y rhestr lawn o ofynion yn: https://llyw.cymru/safonau-adeiladu-cynaliadwy

### 6.3 Hawliadau Ariannol a Gwaith Monitro Rheolaidd

#### 6.3.1 Hawliadau Ariannol a Phroffiliau Cyllideb

Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ffurflenni hawlio, adroddiadau cynnydd a phroffiliau cyllideb chwarterol i awdurdodau lleol.

Mae'r templed yn cynnwys adran i gofnodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf ac unrhyw broblemau o ran y prosiect, risgiau ac oedi i'r prosiect(au). Dylai hawliadau fod yn seiliedig ar y gwariant yr aed iddo yn ystod y chwarter blaenorol i'r Tîm Cyllid Addysg. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn cyflwyno'r hawliadau a'r adroddiadau i'r Tîm Cyllid Addysg (a hefyd wedi'i gopïo i gofalplantachwarae@llyw.cymru) erbyn y dyddiad y gofynnwyd amdanynt fel y gellir nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw ar y cyd â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl.

Dylid nodi, yng ngoleuni pwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru a, gyda phroses strwythuredig o gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes, y byddem yn disgwyl i awdurdodai lleol allu proffilio'r gwariant a chadarnhau'r proffiliau cyllideb fesul prosiect cyfalaf mor gywir â phosibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd â meysydd polisi â buddiant fel y Gymraeg a Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu er mwyn trafod

cynnydd prosiectau, proffiliau cyllideb ac unrhyw broblemau posibl. Bydd y rhain yn cael eu hategu gan ymweliadau safle hefyd.

### 2.2.4 Amrywiadau i gwmpas prosiectau

Yn sgil cyflwyno dull fesul cam o gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes, mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn disgwyl gostyngiad yn lefel y ceisiadau i amrywio. Fodd bynnag, bydd achosion lle na fydd prosiectau'n mynd rhagddynt yn ôl y bwriad a lle y gallai fod angen gwneud newidiadau.

Dylai awdurdodau lleol gysylltu â'r Rheolwr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar cyn gynted â phosibl. Rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar unrhyw amrywiad cyn y caiff cyllid ei dalu. Ni all Llywodraeth Cymru warantu y caiff costau cynyddol eu talu o dan y rhaglen gyfalaf na'u hariannu mewn blynyddoedd ariannol i ddod, felly dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y bydd yn rheoli gorwariant neu achosion o oedi sylweddol o'i gyllidebau ei hun. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir ceisiadau ôl-weithredol i amrywio.

Gall eich Rheolwr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ddarparu ceisiadau enghreifftiol i amrywio a rhaid i gais gael ei wneud os bydd newid sylweddol i gwmpas y prosiect, er enghraifft:

- Newid i'r estyniad arfaethedig a/neu nifer y lleoedd gofal plant a gynigir neu leihad yn y gwasanaeth arfaethedig, er enghraifft lle nad yw darpariaeth gofal dydd llawn yn bosibl mwyach
- Newid i leoliad y prosiect arfaethedig
- Gwaith ychwanegol nas rhagwelwyd yn flaenorol
- Costau tendro sy'n uwch na'r gyllideb
- Oedi sylweddol a risgiau i brosiectau

**Nodwch:** Rhaid i geisiadau i amrywio gael eu dychwelyd at y Rheolwr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar i'w hadolygu ac **nid dim ond** eu nodi ar y ffurflen hawliadau ariannol chwarterol. Ni chaiff cais i amrywio ei ystyried heb gais.

Bydd ceisiadau i amrywio yn dilyn yr un broses asesu a chymeradwyo â'r hyn a nodir yn Adran 4 uchod. Caiff awdurdodau lleol eu hysbysu'n ffurfiol drwy lythyr p'un a yw'r cais wedi'i gymeradwyo ai peidio.

### 6.4 Archwiliadau

Bydd pob prosiect sy'n cael grant yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilio Cymru. Noder y dylid cadw cofnodion priodol o wariant, gan gynnwys anfonebau, taflenni amser a thystiolaeth o gydymffurfiaeth prosesau caffael.

### 6.5 Adroddiadau Terfynol a Buddiannau

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Adroddiad Terfynol ar gyfer pob prosiect. Dylai'r Adroddiad Terfynol gynnwys y buddiannau canlynol:

- Cadarnhad bod ased wedi'i greu yn unol â'r Achos Busnes a gymeradwywyd a gwybodaeth am unrhyw fuddiannau arfaethedig cysylltiedig a wireddwyd
- Trosolwg o'r ased, gan gynnwys cadarnhad o'r ddarpariaeth a gynigir a'r hyn sy'n wahanol rhyngddi a'r ddarpariaeth flaenorol
- Sut mae'r prosiect wedi cyflawni blaenoriaethau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (lle y bo'n berthnasol) yn ogystal â blaenoriaethau lleol eraill o ganlyniad i'r buddsoddiad
- Cyd-destun ehangach o ran sut y bydd y prosiect yn diwallu anghenion y gymuned drwy gefnogi polisïau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru (gweler Adran 4.2.4 Achos Strategol – Polisïau a Strategaethau Ehangach uchod)
- Effaith ar randdeiliaid sy'n cael budd o'r ased
- Unrhyw swyddi a/neu brentisiaethau a grëwyd (fel rhan o'r prosiect adeiladu ac fel rhan o'r ddarpariaeth gynyddol o wasanaethau)
- Cadarnhad bod sgôr Ardderchog BREEAM wedi'i sicrhau (lle y bo'n gymwys)
- Cadarnhad bod sgôr EPC 'A' wedi'i sicrhau (lle y bo'n gymwys)
- Dyddiad dechrau a gorffen y gwaith adeiladu
- Y dyddiad y daeth y cyfleuster yn weithredol

### 6.6 Cyhoeddusrwydd

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a noddwyr prosiectau yn cydweithio i roi cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl i brosiectau a thynnu sylw at y cyfraniad y mae'r rhaglen Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn ei wneud yng Nghymru.

Dylid cadw cofnodion o gyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol, erthyglau yn y wasg ac mewn cyfnodolion a datganiadau i'r wasg, cyfweliadau â'r cyfryngau (y teledu a'r radio) a lansiadau ac achlysuron agor swyddogol er mwyn dangos y gwaith cyhoeddusrwydd a wnaed yn ystod cylch oes eich prosiect.

Fel gofyniad sylfaenol:

- Rhaid i bob arwydd, plac a datganiad i'r wasg yn cyfeirio at ffynhonnell y cyllid yn y paragraffau agoriadol, a rhaid i bob un gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.
- Ar gyfer prosiectau mawr wedi'u cydleoli, rhaid i'r arwyddion a osodir ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu gydnabod prif ffynhonnell cyllid Llywodraeth Cymru
- Rhaid i unrhyw gyhoeddiad am y prosiect gyfeirio at y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
- Rhaid i'ch gwefan gydnabod y cyllid a gafwyd gan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn glir

- Rhaid ichi hysbysu'r Rheolwyr Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar am ddigwyddiadau ac achlysuron agor sydd i ddod sy'n gysylltiedig â'r prosiect, er mwyn rhoi cyfle i'r Gweinidogion fod yn bresennol
- Dylid cyflwyno lluniau o brosiectau mawr – cyn ac ar ôl iddynt gael eu cwblhau – ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau at ddibenion cyhoeddusrwydd